Rheolau labelu pysgod
Canllaw cyflym

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Erbyn hyn, mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i rai pysgod sy'n cael eu gwerthu'n adwerthol gael eu labelu â'r holl wybodaeth ganlynol:

Enw masnachol y rhywogaeth

Mae'n rhaid i labeli ddangos enw masnachol y pysgodyn. Mae rhai enghreifftiau cyffredin o'r rhain, ynghyd â'u henwau Lladin, wedi eu hargraffu drosodd. Mae rhoi'r enw (Lladin) gwyddonol i ddefnyddwyr yn ddewisol pan adwerthir y pysgodyn;

Dull cynhyrchu

Mae'n rhaid i labeli ddweud a ddaliwyd y pysgodyn yn y môr neu mewn dyfroedd mewndir neu a gafodd ei ffermio; ac,

Ardal dal pysgodyn

Mae'n rhaid i labeli ddweud lle daliwyd y pysgodyn (dylech ddefnyddio'r 12 ardal a ddangosir yn y tabl isod) neu gynnwys y Wlad lle cynhyrchwyd y pysgodyn (hynny yw, Aelod-Wladwriaeth yr UE neu drydedd wlad).

ARDALOEDD DAL PENODEDIG			
Gogledd-orllewin yr Iwerydd	Canol dwyreiniol yr Iwerydd	Y Môr Baltig	Cefnfor yr India
Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd	De-orllewin yr Iweryd	Môr y Canoldir	Y Môr Tawel
Canol gorllewinol yr Iwerydd	De-ddwyrain yr Iwerydd	Y Môr Du	Yr Antarctig

- Mae rheolau olrhain yn ei gwneud ofynnol i'r wybodaeth uchod gael ei dosbarthu i lawr y gadwyn farchnata pan fydd perchenogaeth y cynnyrch yn newid dwylo rhwng busnesau. Yn ogystal, mae'n rhaid cynnwys enw (Lladin) gwyddonol y rhywogaeth.
- Mae'r rheolau'n berthnasol i'r categorïau canlynol o bysgod, p'un a ydynt yn cael eu gwerthu'n rhydd neu wedi eu pecynnu ymlaen llaw: yn bysgod byw, ffres, wedi eu hoeri neu eu rhewi; yn ffiledau pysgod a chig pysgod arall; yn bysgod mwg, wedi eu sychu, eu halltu neu'n bysgod mewn dŵr hallt; yn gramenogion neu'n folysgiaid.
- Nid yw'r rheolau'n berthnasol i gynhyrchion pysgod wedi eu prosesu (er enghraifft, pysgod tun), pysgod parod i'w bwyta neu gynhyrchion pysgod sy'n cael eu gwerthu gan arlwywyr.

GWYBODAETH BELLACH

(1) Mae Canllawiau'r Asiantaeth mewn perthynas â rheoliadau labelu pysgod ar gael yn: **www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/fish_lab_reg2003gn.pdf**

(2) Mae'r rheoliadau llawn ar gael yn: **www.opsi.gov.uk/legislation/index.htm**

Cymru: SI 2003 Rhif 1635 (W.177), SI 2006 Rhif 1339 (W.131)
Lloegr: SI 2003 Rhif 461, SI 2006 Rhif 506
Yr Alban: SSI 2003 Rhif 145, SSI 2006 105
Gogledd Iwerddon: 2003 Rhif 160, 2006 Rhif 116

Enghreifftiau o enwau cyfreithiol rhai pysgod

Penodiad masnachol	Rhywogaeth
Draenogyn môr	*Dicentrarchus labrax* (L.)
Lleden fannog	*Scophthalmus rhombus* (L.)
Cocosen	Holl rywogaethau *Cerastoderma*
Penfras neu benfras ifanc	*Gadus morhua*
Penfras y Môr Tawel neu benfras	*Gadus macrocephalus*
Penfras yr Ynys Las neu benfras	*Gadus ogac*
Celog neu Chwitlyn Glas	*Pollachius virens* (L.)
Cranc	Holl rywogaethau'r urdd *Brachyura*, Holl rywogaethau'r teulu *Lithodidae*
Pysgodyn darn arian	*Zeus faber* (L.)
Morgi	Holl rywogaethau *Galeorhinus*, Holl rywogaethau *Mustelus*, Holl rywogaethau *Scyliorhinus, Galeus melastomus, Squalus acanthias* (L.)
Merfog	*Abramis brama*
Hadog	*Melanogrammus aeglefinus* (L.)
Cegddu Cegddu'r Penrhyn	Holl rywogaethau *Merluccius* Neu gellir defnyddio'r canlynol: *Merluccius capensis*, *Merluccius paradoxus*
Pennog neu Ysgadenyn	*Clupea harengus* (L.)
Hoci	*Macruronus novaezelandiae*
Crimwch	Holl rywogaethau *Homarus*
Macrell	Holl rywogaethau *Scomber*
Lleden Fair	Holl rywogaethau *Lepidorhombus*
Maelgi neu Gythraul y môr	*Lophius piscatorius* (L.), *Lophius americanus, Lophiodes caulinaris, Lophius budegassa*
Cragen las	Holl rywogaethau'r teulu *Mytilidae*
Wystrysen	Holl rywogaethau *Crassostrea*, Holl rywogaethau *Ostrea*
Wystrysen neu Wystrysen y Môr Tawel	*Crassostrea gigas* (Thunberg)
Wystrysen neu wystrysen Llymarch	*Ostrea edulis* (L.)
Lleden goch	*Pleuronectes platessa* (L.)
Brithyll seithliw neu Frithyll	*Oncorhynchus mykiss*
Eog	*Salmo salar* (L.)
Cragen fylchog neu Gragen Aberffro	*Pecten maximus*
Cragen fylchog yr Iwerydd neu Gragen fylchog	*Placopecten magellanicus*
Cwin neu Gragen y frenhines	*Chlamys (Aequipecten) opercularis*
Cragen fylchog	Holl rywogaethau'r teulu *Pectinidae*
Sgampi neu grimwch Norwy neu langwstîn	*Nephrops norvegicus* (L.)
Berdysen	Holl rywogaethau *Crangon*
Morgath neu forgath ddu	Holl rywogaethau'r teulu *Rajidae*
Lleden chwithig	*Solea solea* (L.)
Lleden lefn	*Microstomus kitt* (Walbaum)
Corgimwch	*Penaeus monodon, Penaeus semisulcatus, Penaeus esculentus, Penaeus kerathurus, Penaeus japonicus, Parapenaeopsis hardwickii, Parapenaeopsis sculptilis*
Tilapia	Holl rywogaethau *Tilapia*, Holl rywogaethau *Oreochromis*
Lleden wrach	*Glyptocephalus cynoglossus* (L.)
Marlin neu diwna	Holl rywogaethau *Thunnus*
Sgipjac (neu diwna)	*Katsuwonus pelamis*
Tiwna melyn (neu diwna)	*Thunnus albacares*
Torbwt	*Psetta maxima*
Gwichiad moch	Holl rywogaethau *Buccinum*

Gellir dod o hyd i restr lawn o enwau cyfreithiol, a thaenlen excel er mwyn chwilio am enwau pysgod, ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef:
www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/labelregsguidance/updatednamesfish

FSA/1211/1007